OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 658 (Cy.96)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Deddf Addysg Uwch 2004 (Awdurdod Perthnasol) (Dynodi) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - -	*7 Mawrth 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*8 Mawrth 2011*
Yn dod i rym - -	*31 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 30 o Ddeddf Addysg Uwch 2004(**1**) ("y Ddeddf") ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 30(3) o'r Ddeddf, mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i ddiwygio'r Ddeddf fel a nodir yn rheoliad 3, mewn cysylltiad â dynodi Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn awdurdod perthnasol o ran Cymru.

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Addysg Uwch 2004 (Awdurdod Perthnasol) (Dynodi) (Cymru) 2011 ac maent yn dod i rym ar 31 Mawrth 2011.

Dynodi

2. Dynodir Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn awdurdod perthnasol o ran Cymru at ddibenion adran 30 o Deddf Addysg Uwch 2004.

Diwygiadau i Ddeddf Addysg Uwch 2004

3.—(1) Mae Deddf Addysg Uwch 2004 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl adran 40 mewnosoder—

(**1**) 2004 p.8.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel y cyfansoddwyd ef gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38) o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004 i Weinidogion Cymru gan baragraff 30(2)(c) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).